

**bip**, &c. [bnth. S. *beep*] *eg.* Sŵn byr ac uchel ei draw a gynhyrchir gan gorn cerbyd neu offer electronig: *beep*.

1992.

**bipiaf, bipaf: bipian, bipio, bipan, bipo** [bf. o'r e. *bip*] *bg.a.* a hefyd gyda grym enwol. Cynhyrchu bip (am gorn neu ddyfais electronig): *to beep*.

1995. Ar lafar yn gyff., 'Mae dy gamera di'n *bipian*; wyt ti wedi 'i adael 'mlaen?'; 'Paid â cadw dy dad i aros rhy hir ne fydd e'n dechre *bipan* y corn'; 'Wnes i *bipio* arno fo'; 'Ma rhyw awydd yn codi'n aml ynof i *bipo* ar geir sy'n mynd yn rhy araf'.

**bips** [cf. S. *to give a person the pip* 'to annoy or irritate'] *e.ll.* Gwawd, gwatwar: *mockery, derision*.

1968. Ar lafar, 'Mae e â'i *fips* arna i o hyd' (canolbarth Cered.); 'Ma *bips* 'dag e ar bawb' (godre Cered.); '*Bips* 'mockery', *TGG* (1907-8) 100 (godre Cered.); 'Gwneir *bips* am ben rhywun wrth ei wawdio', *Cymru* xxxiii. 39 (godre Cered.); 'Mae'n llawn hen *fips* i gyd' 'very sarcastic, or disposed to sneer', *GDD* 31.

**bir** [bnth. S. *beer*] *eg.* ll. *biroedd, biriau*. Diod alcoholig wedi ei chynhyrchu drwy eplesiad brag, &c., a'i blasu â hopys, &c., cwrw: *beer, ale*.

14g. *GIG* 83, A'i fara a'i gwrw a'i *fir* a'i gog, / A'r lle amlaf clêr mal llu amlwg [i lys Hywel Cyffin]. 15g. *DE* 136, Ny oganaf Syr Dauydd / wan o Von am win neu vedd / cwrw na *bir* im car ny bydd / er haner wy rhown i rodd. 15-16g. *TA* 210, Seigiau ar ddysglau oedd ynn, / Siwgr, *bir*, sew o geirw Berwyn. 1545 *CI* 80, [y]r vnig ymrauael sydd hryngtheuntt twy ydiw y *bir* a ddarllawir drwy vraag a hoppis, a'r kwrw a ddyllir j ddarllaw yn vnig drwy vraag. 1547 *WS*, *Bir* diod, Bier. 16g. WILIAM CYNWAL: *Gw* (G. P. Jones) 36, Yno y rhoid mewn anrhydedd / Aur i'n mysg, arian a medd, / A rhan gwin i'r hŷn ac iau, / A *biroedd* hwyr a borau. 16-17g. *GST* i. 845, Mis Ebrill wybraidd gorthir. / Da fydd cwrw, gwell fydd *bir*. 1632 *D*, *Bîr*, *Cervisia lupulata*. 17g. E. MORRIS: *B* 37, Llys *biroedd*, lle syberwyd, / Llys a biodd rhoi lles bwyd. *Dehr.* 18g. *Gwasella* 390, Ac yno, daw'r bara a *biriau* can, gwyn / A'r berw a'r rhost, ein bwriad sy ar hyn. 1722 *Llst* 190, *Bir*. m.g. Beer, strong drink. 1756 *Gron* 16, Bara a chaws, *bir* a chig, / Pysg, adar, pob pasgedig. 1851 *Addysg Chambers* i. 345, Y mae gwirf yn bodoli i raddau mwy neu lai mewn pob gwlybwr eplesiedig, megys cwrw, porter, neu *fir*. Ar lafar, '*Bir*, hen *fir*' 'cwrw a hen gwrw', *Cymru* li. 52 (dwyrain sir Drefn.); '*bîr*' 'cwrw', *Geir Geg* 85 (sir Drefn.).

*Amr.:* **pir**<sup>3</sup>. 16-17g. *CRC* 181, kewch /i/ weled yno weithie / air ag arian gwich drwsiadde / ond am fara peese na *pir* / ni fedd /yn/ nvir [*sic*] duwke Hunfrey.

*Cfn.:* **bir Mawrth**: *March beer*. 16-17g. *GHCEM* 60, A *bir Mawrth* bob awr, a medd / Yma rhawg, mor rhywiogedd. 16-17g. *GST* i. 510, Bara gwyn, *bir* i gannwr, / *Bir Mawrth* a bair rym i wŷr.

**biriani**, gw. **biryani**.

**birion**, gw. **bery**.

**Birmaniaid**, gw. **Burmaniaid**.

**birnar**, gw. **braenar**.

**biro**, gw. **beiro**.

**biryani**, **biriani** [bnth. S. *biryani*, *biriani*] *eg.* Pryd Indiaidd wedi ei wneud â reis sbeislyd iawn ynghyd â chig, pysgod, neu lysiau: *biriani*.

1989.

**Bisantaidd**, gw. **Bysantaidd**.

**bisâr** [bnth. S. *bizarre*] *a.* Hynod neu anarferol iawn: *bizarre*.

1973.

**bisecs**, gw. **blwyddyn—blwyddyn fices**.

**bisged**, **bisget**, **bisgit** [bnth. S. *bisked*, *bysket*, *biscuit*, &c.] *eb.* (bach. b. *bisgeden*, g. *bisgedyn*) ll. *bisgedi*, *bisgedau*, *bisgets*, *bisgits*. Cacen fechan fflat ddilefeinllyd, hefyd yn ffig.: *biscuit*, *ship's biscuit*, *also fig.*

1604–7 *TW* (*Pen* 228), *biscet* d.g. *Copta*, *Nauticus panis*, *Rubidus panis*. 1728 T. BADDY: *DDG* 29, [b]wyta ychydig o Resinau a *Biscedau*. c. 1740 *LLM* [48], rhoddwch ynddo agos i Beintiaid o fwydion Bara neu *Bisged*. 1795 R. *Crusoe* 31, rhoddais wascod am danaf a llenwais y pocedi a *biscuits*. 1826 *Y Gwylhedydd* iv. 126, Rhoddwyd y bobl ar ddogyn byrr o bedwaredd ran *bisgeden* y dydd. 1930 S. LEWIS: *M* 16, Prydiau eraill ceisiai . . . deisenni Ffrengig, *biscedi* siocled a macarŵn. 1976 G. A. DAVIES: *TTN* 33, newidia presenoldeb yr halen gyfansoddiad y ddaear . . . Fe'i try'n dalp anhydrin, yn fwdlyd ysgafala ar dywydd gwlyb, ac yn *figsedyn* sych yn yr haf. Ar lafar, 'Dwi wrth fy modd yn dyncio fy *misgit* yn fy nghoffi' (*Môn*); '*bisgets*', *WVBD* 481 (*e.ll.*); '*bisgedan*' (sir Gaern.; bach. b.); '*Pasia*'r tun *bisgits*' (canolbarth Cered.).

*Amr.*: **bisgïen** [bnth. S. taf. *bisky*+*-en*; ?cf. *llus*, *llusïen*] 1847. 1946 *Y Fflam* i. 8, coffi du, du . . . a dwy *figsien* frau ar blat. Ar lafar, '*bisgïen*' (canolbarth a godre Cered.); '*bishgïen*' (sir Gaerf.); '*bisgïen*', *SC* vi. 106 (sir Benf.); '*bisgïen*' (*Morg.*). **bisgis** (*e.ll.*, bach. b. *bisgisen*). Ar lafar, '*bisgisen* . . . *bisgis*', *SC* vi. 106 (sir Benf.).

*Cfn.*: **bisgedi** 'Berffro', &c.: *shortbread biscuits*. 1981.

Gw. hefyd **sgeden**.

**bisi** [bnth. S. *busy*, cf. Crn. C. *bysy*, *besy*; dichon fod enghrau. treigledig o *misi* wedi eu cynnwys yma] *a.* Ymyrgar, busneslyd; prysur: *interfering*, *meddlesome*; *busy*.

1672 R. PRICHARD: *Gw* [xxiii], mi gâf fy marnu gan rai megis dŷn *bussy*. 1677 *TC* 8a, Rhodresgar,

## Proflen hir set 0278x2b tudalen 3 3 Awst 2010 10:09

[Rhaglen feysydd GPC fersiwn 5.75 (IBM)] [Rhaglen hollti GPC fersiwn 3.03] [Rhaglen PostScript GPC fersiwn 1.25]  
FFEL: TOR/0278X2B.TOR Dychweler at: Y Golygydd, Geiriadur Prifysgol Cymru, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth SY23 3HH

dyn yn ymmyrreth a matterion rhai eraill, dyn *bussy*.  
*id.* 105, 'Cainiad' . . . yr hwn sy yn difenwi difrifol ddiwydrwydd megis rhodreswaith neu fod yn *fussu* yn afreidiol. 1737 G. JONES: *CRA* 8–9, A oes un dŷn pe gwele dŷ Cymydog a'r [*sic*] dân na chymere amser oddiwrth ei waith *byssia* y wneuthyr ei ran tuac at ei achyb? 1740 E. DAVIES: *Alm* [36], Mae Angau ai gleddau glas: heb faswedd / Yn *fisi* ymhob teyrnas. 18g. E. T. RHYS: *DA* 91, Mi ofynais, yn lled *fissi*, / 'Beth yw'r mater, lân gwmpeini?'. 1865 *Y Bedyddiwr* 303, y ma' yma le unpleasant iawn, yr ydim yn golchi yn *fisi*. 1955 I. FF. ELIS: *FfTG* 37, Cadw'r hof yn *fisi*, chewch chi ddim llawer o chwyn. Ar lafar, '*bisi*, *bishi*' 'Applied to a man, *bis(h)i* invariably means "busy"; applied to a woman, it may mean "gossip, busybody"', *LGW* 193 (y canolbarth a'r de); '*bisi*' 'prysur', *B* v. 112 (sir Drefn.); 'Os chi ise cal rhywbeth wedi 'i' neud, gofynnwch i berson *bisi* (canolbarth Cered.); '*bishi*' 'busy, meddling', *SC* vi. 106 (sir Benf.); '*bishi*' 'busy and meddling', 'Dyna rai *bishi* yw reina—a'u bys yn fisnas pawb!', *GTN* 68; '*bishi*' 'busy; industrious', 'yn *fishi* yn yr ardd', *ib.*

Gw. hefyd **msi**.

**bisigl**, gw. **beisicl**.

**bislath**, gw. **pislath**.

**bismwth** [bnth. S. *bismuth*] *eg.* ll. *bismythau*. *Cem.* Elfen fetelaidd frau lwythgoch (symbol Bi; rhif atomig 83); *Meddyg.* cyfansoddyn o'r elfen hon a ddefnyddir yn feddyginiaethol: *bismuth* (*in chem. and med.*).

1857. Cf. 1837 *Y Drysorfa* vii. 146, sylweddau mettelaidd eraill, a dynir o amrywiol fathau o ddaear, ydynt, Antimony, *Bismuth*, Cobalt, Arsenic.

**bison**, **beison** [bnth. S. *bison*] *eg.* a hefyd fel *e.ll.* Ych gwyllt cefngrwm gyda blew hir a'i gynefin yng ngogledd America ac Ewrop, bual: *bison*.

1805. 1816 R. ROBERTS: *Daearyddiaeth* 59, Yr uri neu y *bison*, sydd liosog yn Prussia.

**bistiliad**, gw. **pystylad**.

**bistill** [bôn y f. *bistillo*] *eg.* Wrin (gwartheg): *urine* (*of cattle*).

Ar lafar, '*bistill*' 'stale of cattle', 'bacsach ym *bistill* y dæ', *GTN* 67.

**bistillo**, gw. **pystylad**.

**bisto**, *eg.* Ci bach, enw a ddefnyddir i alw ci bach dienw, enw ar gi: *puppy*, *name used to call a nameless puppy, name for a dog.*

1904. 1934 D. J. WILLIAMS: *HW* 46, rhaid yw cydnabod yn onest na thyfodd ei syniad am ddyletswyddau ci . . . fawr erioed uwchlaw'r *bisto* yn y cyfnod hapus hwnnw pan yw dal ei gynffon a phoeni'r gath iddo'n brif ddifyrrwch ac amcan ei

## Proflen hir set 0278x2b tudalen 4 3 Awst 2010 10:09

[Rhaglen feysydd GPC fersiwn 5.75 (IBM)] [Rhaglen hollti GPC fersiwn 3.03] [Rhaglen PostScript GPC fersiwn 1.25]  
FFEL: TOR/0278X2B.TOR Dychweler at: Y Golygydd, Geiriadur Prifysgol Cymru, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth SY23 3HH

fydolaeth. **1964** D. JACOB DAVIES: *HF* 32, Odd gydag e gi defed. Clampyn o un mowr odd e,—*Bisto*. Ar lafar, ‘Ma *bisto* bach newydd ’da ni, hen un bach neis yw e’ (canolbarth Cered.); ‘Ci bach yw *bisto*, ond yn aml, caiff ei ddefnyddio fel enw i alw’r ci bach’, *FWI* 115; ‘Wedd ’i’n show gweld *bishto* in ishte in ’i gw b newy” (sir Benf.); ‘dere ’ma *bishto* bach’ (sir Gaerf.); ‘*Bishto*’ ‘calling a small dog whose name is not known’, *GDD* 140.

**bistro** [bnth. S. *bistro*] *eg.* ll. *bistros*. Tŷ bwyta bach sy’n gweini bwyd am bris rhesymol: *bistro*.

**1955** I. FF. ELIS: *FfTG* 212, O dŷ bwyta i dŷ bwyta, o’r *bistros* bychain . . . i’r Ritz a’r Balzar.

**biswail, biswel, piswail, piswel, &c.** [cf. Crn. Diw. *buzl verh* ‘tail ceffylau’, ?a’r ff. *piswail, piswel* dan ddyl. *pisaf: piso, &c.*, neu drwy galediad] *eg.* Tom (gwartheg, &c.), tail, wrin (anifeiliaid), cymysgedd o dail ac wrin (anifeiliaid), slyri, hefyd yn ffig.: *dung* (of cattle, &c.), *muck*, (animal) *urine, mixture of (animal) dung and urine, slurry, also fig.*

**13g.** *LII* 10–11, gostecvvr . . . Ef a dele try ugeynt e gan pob maer *bysweyl* pan dotter en uae. **14g.** *WML* 26, eithyr y refyr ar cledyf *bisweil* a a yr portha6r. c. **1400** *MM* 42, Rac brath ab.—Kymryt *bissweil* tar6 ae doddi 6rtha6, a iach uyd. c. **1400** *R* 1343. 23–4, costa6c uab taer 6rab teil. kest va6r b6ysswest vaer *bissweil*. **16g.** *LIS* 28–9, Pidid y goc . . . Y gwreiddin a drewir ar y gowt gyd a *buswel* buwch er i esmwythay. **1588** *Ecs* xxix. 14, c6g y bustach ai groen, ai *fiswel*, a losci mewn t6n. **1609** *CRC* 362, a gwae am ddyko yn Rhy vchel / rhag i syrthio yn y *biswel*. **1632** *D*, *Biswail*, Foria, orum, Onchos. **1677** C. EDWARDS: *FfDd* 131, r[h]oddi *biswel* ar eu pennau i guddio n6d y bwystfil. **1793** *P*, *Biswal*, s. pl. aggr. . . . The stale; the drain in a cow-house; . . . cow dung. **1800** W. OWEN[-PUGHE]: *CP* 75, Ar du cefyn y Tŷ Pesi hwn y bydd pwll tomen orchuddiedig . . . i ba le y rheda yr holl *fiswal* (*urine*). **1848** *FfHEA* 17, Mae *piswail* anifeiliaid yn fuddiol iawn fel achles. **1908** J. JONES: *Ll6n Gwerin* 312, Mae piso dafad yn ganwaith mwy o werth na *biswail* buwch. Ar lafar, ‘*biswail*’ ‘tail gwartheg’, *LILIM* 90; ‘*biswel*’ ‘tail’, *Cymru* xlvi. 148 (sir Ddinb.); ‘Cer i’r showyr, ti’n drewi o *biswel*’ (canolbarth Cered.); ‘*bishwel*’ ‘urine of cattle’ (canolbarth a godre Cered.); ‘*pishwel*’ ‘the drain of cattle’, *id.* xliii. [195] (godre Cered.); ‘*pishwel*’ ‘stale’, *TGG* (1907–8) 83 (de-orllewin sir Gaerf.); ‘*Pishwel*’ ‘a pool of liquid manure or dung’, *GDD* 227; ‘W6dd y sw6n in seithu i bobman fel *pishwel* “Seren” pan fidde hi’n codi i chwt in ddisimwth in i boidy’, *W6s w6s* 74; ‘*bishwal*’ ‘stale of cattle’, *GTN* 68; hefyd yn y ff. ‘*peswal*’, ‘dos i’r cae i chwalu *peswal*’, *ISF* 60; ac yn y ff. ‘*pishwel*’ (Cwm Tawe), ‘*bishwal*’ (dwyrain Morg.) yn yr ystyr ‘the bed for the urine of the cattle’, *GWG* 322. Digwydd fel elf. mewn e. lleoedd, e.e. *Llyn y Biswail*, Beddgelert, sir Gaern., a *Rhos y Biswail*, Cilcennin, Cered.

*Cfn.*: **biswail gwartheg, biswel gwartheg: cow-dung.** c. **1400** [RB] *WM* 202. 15–17, rac llyfnet y lla6r gan

*vissweil gwarthec* ae tronc. c. 1400 *ChO* 5, ebodyn meirch, a *bissweil gwarthec*. 1588 *Esec* iv. 15, roddais it *fiswel gwarthec* yn lle tail dŷn. 1759 J. EVANS: *PF* 77, Twymwch *Fiswel Gwarthec* yn ddâ. Tânwch ef yn dêw ar Ledr. Ar lafar, '*Biswel gwarthec*' 'tail gwartheg', *Cymru* li. 52 (dwyrain sir Drefn.).

Gw. hefyd **bisweilyn**.

**bisweiliaf, pisweiliaf: bisweilio, pisweilio** [bf. o'r e. *biswail, piswail*] *bg.* Tomi, troethi (am anifail): *to drop dung, urinate (of animal)*.

1632 *D*, *bisweilio* d.g. *Stercoro*. 1722 *Llst* 190, *Bisweilio*. To dung. 1725 *SR* d.g. *To Shite*. 1771 *G*. HOWEL: *Alm* 47, Meddyginiaeth at anifeiliaid. I wneud Ceffyl *fiseilio* [*sic*], a phiso yn rhwydd. 1793 *P*, *Bisweiliau* . . . To dung; to drop dung. 1802 *LLMG* 2, fe *bisweilia*'n dymheris. 1846 *Yr Amaethydd* ii. 10, Y mae y lle y piso y ddafad yn well na'r lle y *pisweilia* y fuwch. Ar lafar yn gyff. yn y Gogledd, '*bisweilio*' 'to drop dung', *WA* 388.

**bisweiliog** [*biswail*+*-iog*] *a.* Llawn biswail neu dom, tomlyd, budr: *abounding with dung, miry, dirty*.

12g. *LL* 78, Orhebauc mein yndugleis *bisgueiliauc*. O dugleis *bis gueiliauc* bet nant ireilin. 1888 *SE*, *Bisweiliog*, a. abounding with cow-dung.

**bisweilyn, biswelyn** [*biswail, biswel*+*-yn*<sup>1</sup>] *eg.* Darn o fiswail neu dom, tom (gwartheg, &c.): *piece of dung, dung (of cattle, &c.)*.

13g. *LL* 99, Perchyll bycheyn, o'r pan emchuelhoent *byswelyn* (*AL* i. 324, *bysgwelyn*) ac eu duryrn, un kyureyth ynt ar yt ac eu mam. c. 1400 *R* 1360. 13-14, anurdaf anaf oenyn o brelat baw seilyat *biswelyn*. [1547] *W*. SALESBURY: *OSP*, Lletaf vydd y *biswelyn* oe sathry. 1591-6 *B* iii. 274, cenvydh ef *viswelyn* buwch ar emyl y phordh. *Dchr.* 17g. *J* 10, 139, *Buswelyn*, cowshearde, Bolbiton. 17g. (18g.) *RhC* 114, Nid chwe gwr ond chwe gwybedyn / oedd yn sefyll ar *fiswelyn*. 1793 *P*, *Bisweilyn*, s. m. dim. . . . Cow-dung. 1888 *SE*, *Bisweilyn*, sm. [dim. of biswail] cow-dung (especially in lumps or small masses as in the fields).

**biswel, gw. biswail.**

**biswelyn, gw. bisweilyn.**

**biswn** [ʔbnth. cfl. gwrth. ff. Lad. ar y Gr. *Βύσσοσ*] *eg.* Lliain main: *byssus, fine linen*.

1346 *LLA* 95, achrys allaḡdyr or *bissōn* meinwyn amdanaḡ. Sef yḡ *ybissōn*. meinllin owlat yr eiff.

**bisyclwr, gw. beisiclydd.**

**bit**<sup>1</sup>, gw. wyf: bod.

**bit**<sup>2</sup> [bnth. S. *bit* 'mouthpiece of a horse's bridle; biting part of a tool'] *eg.* ll. *bitiau, bits*.

(a) Genfa: (*horse's*) *bit*.

## Proflen hir set 0278x2b tudalen 6 3 Awst 2010 10:09

[Rhaglen feysydd GPC fersiwn 5.75 (IBM)] [Rhaglen hollti GPC fersiwn 3.03] [Rhaglen PostScript GPC fersiwn 1.25]  
FFEL: TOR/0278X2B.TOR Dychweler at: Y Golygydd, Geiriadur Prifysgol Cymru, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth SY23 3HH

**1881** Cy iv. 181, Ar ol rhoi ffrwyn yn mhen ei ferlyn ei hun, taflodd un arall i'r wraig i roi yn mhen ei merlyn hithau, ac wrth ei thafu tarawodd *bit* y ffrwyn hi yn ei llaw. Ar lafar, 'Ma'r gaseg 'na bach yn gryf; w' ti 'di meddwl newid y *bit*?' (canolbarth Cered.); '*bit* allweddi', '*bit* plaim' 'genfa a'r bar dur yn un darn' (dwyrain sir Gaerf.).

(b) Ebill: *bit* (*boring piece of a drill*).

**1970.** Ar lafar, 'bras a *bitiau*' (sir Drefn.); 'Gei di fenthyg y dril, ond gwae d'ened di os torri di'r *bits*' (canolbarth Cered.); 'Ôn i'n doti *bit* pres ar ben y dril' (dwyrain Morg.).

Gw. hefyd **byt**, **pit**<sup>2</sup>.

**bit**<sup>3</sup> [bnth. S. *bit* 'binary digit'] eg. ll. *bitiau*.  
*Cyfrifiadura* Uned o wybodaeth a fynegir fel o neu i mewn nodiant deuaidd, did: *bit*, *binary digit* (*in computing*).

**1995.**

**bit**<sup>4</sup>, gw. **pitw** (hefyd *GPC*<sup>3</sup>).

**bît** [bnth. S. *beat*] eg.

(a) Curiad (mewn cerddoriaeth, &c.), rhythm: *beat* (*in music, &c.*), *rhythm*.

**1988.**

(b) Ardal wedi ei phennu ar gyfer heddw was ac sy'n cael ei phlisma ar droed: (*policeman's*) *beat*.

**1996.**

**bitail**, gw. **bitel**.

**bitain**, gw. **betoni**.

**bital**, gw. **bitel**.

**bitan**, gw. **betoni**.

**bitato**, gw. **pytatws**.

†**bitaud**, gw. **wyf: bod**.

**biteiliaf: biteilio**, gw. **bitelaf: bitelio**.

**bitel**, **bitail**, **bital** [bnth. S. C. *vitale*, *vittel*, *vitel*, ff. ar *victual(s)*, gydag *f-* a *b-* yn ymgfynewid, cf. *ficer*, *bicar*; trafodir yr enghrau. yn *f-* d.g. *fitael*] eg. ll. *biteloedd*, a hefyd fel *e.ll.* Ymborth, bwyd, lluniaeth, darpariaeth: *victuals*, *food*, *sustenance*, *provisions*.

**15g.** *GO* 335, mvrnio *bitel* a chelv, / methiant wyl i fapsant fv. **15g.** *DE* 106, oi win bottiau i wan *bitel* / oi neuaddau win i wyddel. **16g.** (*LLEG*) *Mos* 158, 641a, tair olongav mawr ynnllawn o wennith a *bittelloedd* Eraill. **16g.** *Pen* 181, 385, bara kwrwyff kic pysgod *abitel* arall. **1567** *TN* 23a, [m]yned ir dinasoedd y bryny yddyn vwydydd [:- *vitel*]. **1632** *D*, *Bittail*. Arm. *victus*. **1688** *Tj*, *Bittail* . . . lliniaeth, ymborth.

Victuals. **1722** *Llst* 190, *Bittail*. pl. Victuals. **1753** *TR*, *Bittail* . . . food, sustenance. **1888** *SE*, *Bitail*, *Bitel*, *Bitel* . . . sm. . . victuals, food, provisions, sustenance.

Gw. hefyd **fitael**.

**bitelaf, biteliaf, biteiliaf, &c.: bitelu, bitelio, biteilio, &c.** [bf. o'r e. *bitel*, *bitail*] *bg.a.* Cyflenwi (llong, mintai, &c.) ag ymborth, &c., bwydo: *to victual, supply with victuals, feed*.

**15g.** *GDLI* 48, Gwŷr a barant gau'r aberoedd, / Er *bitelio* i'r bateloedd, / O du'r moroedd i dir Meirion [i Ddewi]. *id.* [117], Abad hael yn *bitelu* / Â'i fagl fawr, difwgl a fu [i Dydecho Sant]. **15g.** (*LIDB*) *LIGC* 7006, 17, dywe/dut oruc achel nat oed lai y nerth o anvon gwin a gwenith i *vitelu* gwyr groec. **15g.** *GGI<sup>2</sup>* 281, Talodd am ei *fitelu*, / Tâl bychan am f'arian fu. *Dchr.* **16g.** *Pen* 182, 270, wedy vddynt ba/ratoi ev llongav a *biteliaw* kyr/chu y kefnvor a orugant. **16g.** (*LIEG*) *Mos* 158, 318b, peris Iarll war/wig *viattelio* sertein or llongav hynn dracheuyn. **16-17g.** *MTA* 405, dewr a ffel yth *fitelwyd* / derwen rudd o ddafudd wyd (Edward Brwynllys). **1611** *NBSB* 139, I'w swyddau, lle'i hansodder, / Waith i *fitlo* i'th fwrtler [Dafydd Llwyd Mathew i George Owen o'r Henllys]. **1615** R. SMYTH: *GB* 40-1, fod yr elyrch infainc [*sic*] yn caru mor serchog i tatau ai mamau pen i bythont hen . . . megis oni bydd gentynt liniaeth yn barod ivv porthi . . . 'r ynt yn chvdu i fynu y peth a fvvytasont y dydd o'r blaen . . . gan i *bittellio* hwy (*les substantent*) a hwnnw. **1888** *SE*, *Bitelu* . . . to victual; to supply with provisions.

**bitelwr** [bôn y f. *bitelaf*, &c.: *bielu*, &c. + -wr] *eg.* ll. *bitelwyr*. Un sy'n cyflenwi neu'n gwerthu ymborth, &c.: *victualler*.

**16g.** (*LIEG*) *Mos* 158, 372a, oblegid bod y llu ffrengig ynn gorwedd hwng dwy avo/n nidoedd y *bitelwyr* yn galled dyuod atteunt. *id.* 517a, Ir ydoedd ynnghwaneg I ddengmil ar h/ugain o wyr ymladd heblaw y *bitelwyr* ar kareiswyr. **1604-7** *TW* (*Pen* 228) d.g. *Annonarius, Macellarius*.

**bitffald, gw. pitffald** (hefyd *GPC*<sup>3</sup>).

**bitffel, gw. pitffald** (hefyd *GPC*<sup>3</sup>).

**biti**<sup>1</sup>, gw. obeutu.

**biti**<sup>2</sup>, gw. pitw (hefyd *GPC*<sup>3</sup>).

**bitlaf: bitlo, gw. bitelaf: bitelu.**

**bitolws** [bnth. dysg. Llad. *vitulus* 'llo, llo tarw', gydag *f-* a *b-* yn ymgfynewid, cf. *ficer, bicer*] *eg.* ll. *bitolysau*. (geir.) Tarw; byffalo: (*dict.*) *bull; buffalo*.

*c.* **1500** *RWM* i. 424, *bitolwss* yw tarw. **16g.** WILIAM LLŶN: *Gw* (R. Stephens) (At.) 9b, *Bitolws* tarw. **1632** *D*, \**Bittolws*, tarw. **1722** *Llst* 190, *Bittolws*. m.g. pl. *Bittolysau* A bull. **1793** *P*, *Bittolws*, s. m. . . . A buffalo; a bull. **1827** *GBed* i. 324, Fy mhrisoedd ydynt gymmedrol . . . *Bittolws*, (Buffalo.) wyth cant.

## Proflen hir set 0278x2b tudalen 8 3 Awst 2010 10:09

[Rhaglen feysydd GPC fersiwn 5.75 (IBM)] [Rhaglen hollti GPC fersiwn 3.03] [Rhaglen PostScript GPC fersiwn 1.25]  
FFEL: TOR/0278X2B.TOR Dychweler at: Y Golygydd, Geiriadur Prifysgol Cymru, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth SY23 3HH

*Amr.:* **betolwd.** *Dchr.* 17g. *ƒ* 10, 138a, *Betolwd* × Tarw.

**biton**, gw. **betoni**.

**bitrwt, bitrwd, &c.** [bnth. S. *beetroot*] *e.ll.* (un. b. *bitrwten, bitrwden, bitrwtsen*) ll. dwbl *bitrwt*s. Betys (coch) (fel bwyd): *beetroot (as food)*.

1894 *BAC*, 7 Mawrth, 6, Mawrth . . . Yn awr ydyw yr amser goreu i hau crop llawn o *bitrwt*. Ar lafar, 'Ma mang-gu wedi hela jar o *bitrwt*s lan i ni' (canolbarth Cered.); 'finne'n cochi fel *bitrwt*en o glust i glust', *Wês wês* 15.

*Cfn.:* **bitrwt coch:** *beetroot*. Ar lafar, 'Ôn i'n arfar cael *bitrwt coch* efo tatws stwnsh, spam a bins' (Môn).

**bitsh, bits, pitsh**<sup>3</sup> [bnth. S. *bitch*; dichon fod enghrau. treigledig wedi eu cynnwys yma gyda *b-* a *p-* yn ymgynffwrdd, cf. *botel, potel*; tuedda *bitsh* i wrthsefyll tr. ml. ar lafar] *eb.* ll. *bitshys, bitshes*.

(a) Menyw faleisus neu gas: *bitch (spiteful or nasty woman)*.

16–17g. *GHCEM* 140, Nid âi'r un ond yr annoeth / I neithior Hits a'r *bits* boeth [Edward Maelor wedi priodas yn y Waun]. 1763 *LIGC* 19, 215, Merch Twmfawr gymmalog, / Ac wŷr i Lewsyn leuog; / Ag orwyr Gwenlli fenyn witsh, / Wyt ti y *Bitsh* ddanhedd-og. 1769 E. ROBERTS: *GN* 42, Ymlid ych tine damio i chwi buteinied, / I beru Dystyrbans ag i hel bastardied; / I roi Cunstable ar Warden a Phawb ar i wrda, / Ddim ond gwaith *Bitses* y[n] mund i din baitsio. 1777 E. ROBERTS: *DG* 43, wyt di ar fedr fy llâdd i hên *Bits* wrthyn [*sic*]. 1955 I. FF. ELIS: *FfTG* 124, 'rwy'n dy garu di'r *bitsh* fach. Ar lafar yn gyff., 'y *bitsh* uffarn' (Meir.); 'Ma fe 'di priodi rial hen *bitsh*, druan bach' (canolbarth Cered.).

(b) Gast: *bitch (female dog)*.

Ar lafar yn y ff. '*pitsh*', *WVBD* 432.

**bîtsh** [bnth. S. *beech*] *e.ll.* (un. b. *bitshen*). Ffawydd, *Fagus sylvaticus*: *beech*.

1850 *Sp (EW)* d.g. *Beech*. Ar lafar, 'coed *bîtsh*', *WVBD* 38; 'Un bert yw copyr *bîtsh* Ystrad Fflur pan fydd hi'n 'i dail' (canolbarth Cered.); '*bîtsh*' '*bitshen*' (godre Cered.); 'pren *bîtsh*' (gogledd sir Gaerf.).

**bitw**, gw. **pitw**.

**bitwmen** [bnth. S. *bitumen*] *eg.* Math o byg mwynaidd a ddefnyddid gynt ym Mhalesteina a Babilon fel mortar, &c.; cymysgedd du gludiog o hydrocarbonau a geir yn naturiol neu fel gweddillion distyllu petroliwm ac a ddefnyddir i arwynebu ffyrdd, toeau, &c.: *bitumen*.

1604–7 *TW (Pen 228)*, pridheist ne'r *Bitumen* gwlyp d.g. *Naphtha*. *id.* pyc, ar Cymrwyt *Bitumen* wedy cytgyymmyscu o naturiaeth d.g. *pissasphaltus*. c. 1762–79 W. WILLIAMS: *P* 195, y twr a adeiladwyd

## Proflen hir set 0278x2b tudalen 9 3 Awst 2010 10:09

[Rhaglen feysydd GPC fersiwn 5.75 (IBM)] [Rhaglen hollti GPC fersiwn 3.03] [Rhaglen PostScript GPC fersiwn 1.25]  
FFEL: TOR/0278X2B.TOR Dychweler at: Y Golygydd, Geiriadur Prifysgol Cymru, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth SY23 3HH

yn nyffryn Sinar . . . yr oedd hwn wedi ei adeiladu o briddfeini a *bitumen*, neu fath o glai fel y dywed yr ysgrythur fod hwnnw. **1856** *Gwyddon* i. 468, [t]ramwyfa . . . ei hochrau yn dangos priddfeini llosgedig a heb eu llosgi: y cyntaf âg ysgrifen arnynt, a'r olaf wedi eu gosod bob yn ail haen â chyrs, oddi eithr haen neu ddwy yn agos i'r gwaelod, y rhai sydd wedi eu cydlydu â '*bitumen*'.

**bitwminaidd, bitwmenaidd** [cfdds. o'r S. *bitumin(ous)* + *-aidd* a *bitwmen* + *-aidd*] *a*. Yn perthyn i fitwmen, yn cynnwys bitwmen, o natur bitwmen: *bituminous*.  
**1968.**

**Bithyniad** [cfdds. o'r S. *Bithyn(ian)* + *-iad*<sup>3</sup>] *eg.* ll. *Bithyniaid*. Un o drigolion Bithynia gynt: *a Bithynian* (*inhabitant of ancient Bithynia*).

**1856** *Gwyddon* i. 731, ond ddarfod iddynt gymmeryd yr enw *Bithyniaid* byth wedi iddynt fyned trosodd i Asia. **1995** *GA* d.g. *Bithynian*.